Decision Schedule

Panel Trwyddedu (Tacsi)

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 8th Mehefin 2023

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **6th Mehefin 2023**, a ddaeth i rym ar
unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Farzina Hussain, Saeed Adan

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 06/23

Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

Penderfyniad

Gyrrwr SC

DS: Eglurodd y Cadeirydd wrth y gyrrwr fod 3 aelod i fod ar y panel ond roedd disgwyl i 1 Cynghorydd, sef Saeed Adan, fynychu o bell ond ei fod yn profi anawsterau TG. Felly roedd y Cynghorydd Adan ar ei ffordd i fynychu wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Ddinesig, ond byddai tua 20 munud. Nid oedd y gyrrwr eisiau aros a gofynnodd i'w achos fynd ymlaen gyda 2 aelod panel yn unig.

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog yn ofalus a lliniaru'r gyrrwr. Nododd y Panel Trwyddedu record dda flaenorol y gyrrwr a derbyniodd ei amgylchiadau lliniarol ynghylch ei amgylchiadau personol. Nododd y Panel Trwyddedu fod y gyrrwr wedi cyfaddef iddo wneud 2 gamgymeriad difrifol, a allai fod wedi arwain at ganlyniadau llawer mwy difrifol. Penderfynodd y Panel Trwyddedu Tacsi y dylai'r gyrrwr gael ei atal am ddwy wythnos gyda'r gofyniad i ail-sefyll a phasio'r prawf gwybodaeth.

Gyrrwr DSM

Cafodd y cais ei dynnu'n ôl ac felly nid oedd angen cynnal y gwrandawiad.

Gyrrwr SA

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog yn ofalus, sylwadau'r ymgeisydd, Canllawiau Statudol yr Adran Drafnidiaeth a Cherbydau Hacni a Pholisïau Llogi PreifatCyngor Dinas

Casnewydd yn 2017. Nododd y Panel Trwyddedu ddifrifoldeb y troseddau a oedd heb eu datgelu o'r blaen gan yr ymgeisydd, fodd bynnag yn derbyn ei reswm dros beidio â datgelu. Yn yr holl amgylchiadau, penderfynodd y Panel Trwyddedu roi trwydded i'r ymgeisydd ar yr amod ei fod yn gwneud cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ddefnyddio'r gwasnaeth diweddaru, er mwyn caniatáu i Swyddogion Trwyddedu cynnal gwiriadau bob 6 mis. Gosododd y Panel Trwyddedu amodau pellach hefyd, sef bod yr ymgeisydd yn gosod Camerâu Cylch Cyfyng a Dash Cam yn ei gerbyd ac yn talu am hynny.

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.

Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Amserlen